| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Ionawr 2025 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr adroddiad** | Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl** | Y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilio Mewnol |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth ysgogi gwelliant.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodeb o adroddiadau Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Bydd cyflawni'r cynllun archwilio yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gael sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu amodau'r Cyngor yn briodol.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn asesu cynnydd a pherfformiad Adain Archwilio Mewnol.

3.2. Bod y Pwyllgor yn penderfynu a oes arno angen sicrwydd pellach ynglŷn ag unrhyw un o'r meysydd a archwiliwyd i olrhain cynnydd y cynlluniau gweithredu gwelliant.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Atodiad 1 yn darparu diweddariad ar y gwaith Archwilio Mewnol a wnaed ers yr adroddiad diweddaru diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2024.

4.2. Ers diweddariad diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, cwblhawyd 8 adroddiad archwilio mewnol – mae dau wedi cael sgôr sicrwydd uchel, tri wedi cael sgôr sicrwydd canolig a thri heb eu sgorio oherwydd eu bod yn destun adolygiadau ar hyn o bryd.

4.3. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un heriol i'r tîm Archwilio Mewnol oherwydd nifer o ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth, yn cynnwys:

- Tri chwyn rhannu pryderon hyd yma ac ar ôl trafodaethau cychwynnol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes mae Archwilio Mewnol wedi cynnal dau ymchwiliad, gyda'r gwasanaeth dan sylw yn cynnal yr ymchwiliad arall
- Tri aelod o'r tîm yn gwirfoddoli i gefnogi'r Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol i gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd
- Nifer anarferol uchel o absenoldebau oherwydd salwch rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2025, sy'n dod i gyfanswm o 136 o ddiwrnodau
- Yn olaf, ymddeolodd un o'r Uwch Archwilwyr Llwybr Gyrfa ar 25 Tachwedd 2024, sy'n effeithio ar y cynllun oherwydd bod gennym ni rŵan un archwilydd yn llai

4.4. Ers mis Ebrill 2024 rydym ni wedi cael dau ymchwiliad arbennig sydd wedi bod yn heriol a thrwm iawn ar adnoddau Archwilio Mewnol. Oherwydd cymhlethdod un o'r cwynion rydym ni wedi gorfod oedi'r ymchwiliad gan fod ffactorau ychwanegol sydd angen eu datrys yn gyntaf cyn i ni gwblhau ein hymchwiliad.

4.5. Mae'r ail ymchwiliad wedi'i gwblhau ac mae adroddiad wedi'i lunio. Rydym ni'n cyfarfod a'r Pennaeth Gwasanaeth ac AD ar 16 Ionawr 2025.

4.6. Mae’r flwyddyn hon wedi bod yn un heriol i’r tîm Archwilio Mewnol oherwydd nifer o ffactorau y tu hwnt i’w rheolaeth sy’n golygu na fydd modd cyflawni’r cynllun cyfan. Felly rydym ni wedi llunio cynllun diwygiedig (gwelwch atodiad 1) a fydd yn sicrhau ein bod ni’n rhoi sylw i o leiaf 50% o bob un o’r pum tabl a fydd yn y pendraw yn gallu caniatáu i’r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cyflwr y Cyngor yn briodol.

4.7. Mae yna 182 diwrnod ar gael i’r tîm tan 31 Mawrth, ac mae’r cynllun diwygiedig yn gofyn am 169. Mae hyn yn golygu bod gennym ni 13 diwrnod at raid.

4.8. Er gwaetha’r heriau mae’r tîm wedi gweithio’n galed iawn ac wedi cyflawni 23% o’r cynllun ac os yw’r cynllun diwygiedig yn cael ei gyflawni bydd y tîm wedi cyflawni 60% o Gynllun Archwilio Mewnol 2024/25.

4.9. Mae Archwilio Mewnol yn monitro perfformiad i fynd i’r afael â chamau sy’n deillio o adolygiadau archwilio. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw mynd i’r afael â’r camau hyn a chofnodi’r cynnydd ar y system rheoli perfformiad (Verto). Mae Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal archwiliadau ‘dilynol’ ac yn adrodd ar gynnydd gan gyflwyno cynlluniau gweithredu sy’n deillio o archwiliadau sicrwydd isel er mwyn sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â’r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun Archwilio yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os na chwblheir gwaith archwilio digonol yn ystod y flwyddyn, mae risg na fydd y Prif Archwilydd Mewnol yn gallu tynnu ar sicrwydd digonol i gyflwyno barn flynyddol gyflawn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Caiff archwiliadau eu blaenoriaethu i roi sylw i lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol a bydd y cwmpas ar gyfer yr archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar risgiau allweddol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.